Premier League
Primary Stars

Prydferth o wahanol
Hyfryd o debyg

Gan Joseph Coelho
Cyfieithwyd o'r Saesneg gan Casia Wiliam,
Bardd Plant Cymru

Yr un chwerthin ddaw yn swynol
pan fydd jôc yn troi yn ddoniol.
Yr un floedd, yr un llawenydd
gwahanol wên.
Yr un rhythm sydd yn siglo
pan ddaw dawns i wneud ni wiglo.
Yr un dwylo, yr un traed,
gwahanol awen.

Yr un teimlad sy'n ein disgwyl
pan ddewiswn fod yn annwyl.
Yr un cofleidiad, yr un cyfarchiad
gwahanol siapiau.
Yr un hapusrwydd sy'n ein deffro
pan ddaw ffrindiau oes i'n rhwymo;
Yr un gôl, yr un gêm,
gwahanol glybiau.

Yr un tristwch sy'n ein llenwi
pan fydd t'wyllwch rhwng y llenni
Yr un llygaid, yr un wylo
gwahanol ddagrau.
Yr un wên fydd yn ein geiriau
pan y down yn ffrindiau gorau.
Yr un gwaed, yr un curiad
yr un calonnau.



Cymerwch ran yn ein cystadleuaeth Premier League Writing Stars.

I gael mwy o wybodaeth ewch i: PLPrimaryStars.com
#PLPrimaryStars